



CYMUDEB YR YSBRYD GLÂN

Llythyr Bugeiliol at Deulu Asaph oddi wrth yr Esgob

Gorffennaf ac Awst 2022

Rydym yn adrodd yn aml: “Gras ein Harglwydd Iesu Grist a chariad Duw, a chymdeithas yr Ysbryd Glân, a fyddo gyda chi oll. Amen.” Rydym yn dyfynnu St Paul wrth gwrs, a ysgrifennodd y geiriau hyn wrth gyfarch cymuned yr Eglwys gynnar yng Nghorinth (2 Corinthiaid 13.14).

Fodd bynnag, mae'r trydydd cymal ynghylch cymdeithas yr Ysbryd Glân yn golygu mwy na synnwyr o fod yn hapus gyda'n gilydd. Mae'n gyfieithiad o'r gair Groegaidd, *koinonia*, gair sydd ag ystyr dwfn iawn iddo. Gellir hefyd ei gyfieithu fel 'cymunedeb', sef rhannu dwfn rhwng pobl a Duw, y profiad o gariad dwfn ac ymrwymiad cadarn sy'n codi o'r berthynas a oedd gan Iesu gyda'r Tad, ac ynddo rydym ni'n cael ein mabwysiadu iddo trwy ras a ffydd. Soniodd yr ysgrifennwr ysbrydol o'r canol oesoedd, Julian o Norwich, am hyn pan ysgrifennodd am un o'i gweledigaethau o Iesu, a oedd yn ei sicrhau, er gwaethaf yr holl bechod yn y byd, 'bydd popeth yn dda, a bydd popeth yn dda a phob math o bethau fydd yn dda' oherwydd ei gariad mawr a gwaith iachawdwriaeth. Mae'n gallu ymddangos mewn emosiwn, synnwyr dwfn o dangnefedd personol, ond nid teimlad yw hyn, dyma'r gwirionedd hanfodol fod Crist wedi talu'r pris amdanom ac yn awr, does dim byd yn gallu ein gwahanu oddi wrth gariad Duw (Rhufeiniaid 8.38).

Ac mae yna ragor. Os yw Duw yn ein dwyn i mewn i'r berthynas hon gydag ef, rydym hefyd yn cael ein dwyn, trwy ffydd, i'r berthynas hon gyda Christnogion eraill. Pan gawsom ein bedyddio i mewn i Grist, cawsom ein bedyddio i mewn i un corff (1 Corinthiaid 12.13) a daeth bob un yn frodyr a chwiorydd yn Nheulu Duw, yn gallu profi cymundod, cyfeillgarwch, gyda'n gilydd. Ar ei orau, mae hyn yn brofiad nerthol ymysg Cristnogion. Ynddo, rydym yn synhwyro, y tu hwnt i'n synhwyrau corfforol, cyswllt dwfn a chyfeillgarwch gyda Christnogion eraill. Fodd bynnag, unwaith eto, mae'n fwy na theimlad. Mae Duw wedi'n rhwymo yng Nghrist, gyda'n gilydd yn un bobl, er mwyn cael ein hadeiladu mewn teml i'w ogoniant (1 Pedr 2.5). Gweithred Duw a dymuniad Duw yw ein bod yn cael ein huno mewn cyfeillgarwch. Dyna pam ei bod yn bechod pan mae Cristnogion yn dadlau, neu'n ymddwyn weithiau'n ffiaidd tuag at ei gilydd. Mae'n gwadu cariad Crist ar waith yn ein mysg. Dyma hefyd pam bod Duw yn galw Cristnogion i weithio'n galed i fod yn un mewn cariad ac mewn cenhadaeth.

Yr haf hwn, mewn dwy gynhadledd fawr rwyf wedi cael y fraint o gynrychioli'r Eglwys yng Nghymru. Pan fyddwch yn darllen hwn, bydd 15fed Cynhadledd Lambeth eisoes wedi dechrau yng Nghaerdydd. Mae'n siŵr y bydd y wasg eisiau adrodd ar ein rhaniadau, ond mewn gwirionedd, mae pob un ohonom ni esgobion wedi ein galw i weithio'n galed i fod mewn Cymundod, mewn cyfeillgarwch ac i wneud y Gymuned Anglicanaidd yn realiti. Methu fyddai gwadu Crist. Mae'r Cymuned Anglicanaidd yn cyflawni cymaint ar y llwyfan byd eang. Mae'n rhaid i ni weithio i ddyfnhau'r cymuned y mae Iesu'n ei roi i ni ac i gryfhau ein tystiolaeth gyffredin iddo.

Yn nes ymlaen ym mis Medi, bydd Cymanfa Gyffredinol Cyngor Eglwysy'r Byd yn cyfarfod yn yr Almaen. Bydd yn dod at ei gilydd nid dim ond un Gymuned Byd Cristnogol, ond holl Gymunedau'r Byd Cristnogol. Bydd y cynulliad hwn yn cynrychioli'r sbectrwm ehangaf posibl o deulu Duw, o'r Syriaidd Uniongred i Bentecostiaid Brasil a phob un yn y canol. Bydd yna heriau hefyd, nid y lleiaf fydd presenoldeb cynrychiolwyr Eglwysy Rwsia a'r Wcráin yn yr un ystafell. Fel yn Lambeth, mae Duw yn ein galw i adeiladu ar ein byw allan o'r cymundod rydym wedi derbyn yng Nghrist.

Ond nid raliau teimlo'n dda mo'r rhain yn unig. Ymdrechion ydyn nhw, yn yr Ysbryd Glân, i ddod ag Eglwysy Iesu Grist i berthynas ddyfnach er mwyn i ni fyw gorchymyn Duw i garu mewn ffordd a fydd yn bresennol mewn un o'r cynadleddau hyn. Mae dyfodol tystiolaeth yr Eglwysy Cristnogol yn dibynnu ein bod ni'n canfod ffyrdd ymlaen gyda'n gilydd. Ac nid yw hyn chwaith yn amherthnasol i'ch ffydd chi - oherwydd rydych chi wedi'ch galw i gymundod gyda'ch cymydog - er mwyn i gariad Crist fod yn amlwg yma yn ein cartrefi ac yn ein hesgobaeth. Yn fyd eang neu'n lleol, yr un yw'r dasg a'r genhadaeth.

